WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adolygiad o Drefniadau Corfforaethol ar gyfer Diogelu – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy**

Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1245A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 2 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n briodol, yr archwilydd penodedig yw'r trydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Ian Phillips, Gwilym Bury a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'n hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu, ond gallai gryfhau rhai o'i drefniadau ac agweddau ar ei berfformiad.


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Cynigion ar gyfer gwella 5

Adroddiad manwl

Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'n hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu, ond gallai gryfhau rhai o'i drefniadau ac agweddau ar ei berfformiad 6

Mae gan y Cyngor drefniadau eglur ar gyfer goruchwylio i weld a yw'n cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu a diwylliant cryf bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb ond gallai rhai trefniadau fod yn gryfach 6

Gallai'r Cyngor wella'i drefniadau hyfforddiant diogelu 7

Mae'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gwybodaeth briodol am ddiogelu ac mae wedi adnabod rhai meysydd lle ceir tanberfformiad 9

Atodiadau

Atodiad 1 – mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu yn 2015 11

Atodiad 2 – diogelu yng Nghyngor Conwy – meysydd lle ceir perfformiad gwael 15

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Fe wnaethom adolygu trefniadau corfforaethol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (y Cyngor) ar gyfer diogelu plant ac oedolion. Er bod rhai trefniadau llywodraethu ar gyfer diogelu'n gweithredu'n rhanbarthol (yn yr ardal hon trwy Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru), roedd ffocws ein hadolygiad ar drefniadau corfforaethol y Cyngor ei hun.

2 Fe gynhalion ni'r adolygiad hwn i geisio sicrwydd bod gan y Cyngor drefniadau corfforaethol effeithiol ar gyfer diogelu. Fe wnaethom ystyried canfyddiadau ein hadroddiad yn 2014 ar drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant[1]. Fe wnaethom hefyd ystyried cynnydd y Cyngor o ran gweithredu'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru** (Gorffennaf 2015)[2].

3 Fe gynhaliom ni'r adolygiad yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth 2019.

### Yr hyn a ganfuom

4 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: A yw trefniadau llywodraethu a rheoli'r Cyngor yn darparu sicrwydd bod plant ac oedolion yn cael eu diogelu?

5 Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'n hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu, ond gallai gryfhau rhai o'i drefniadau ac agweddau ar ei berfformiad. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau isod:

- Mae gan y Cyngor drefniadau eglur ar gyfer goruchwylio i weld a yw'n cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu a diwylliant cryf bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb ond gallai rhai trefniadau fod yn gryfach
- Gallai'r Cyngor wella'i drefniadau hyfforddiant diogelu
- Mae'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gwybodaeth briodol am ddiogelu ac mae wedi adnabod rhai meysydd lle ceir tanberfformiad
- Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu yn 2015

[1] Archwilydd Cyffredinol Cymru, **Trefniadau Awdurdodau Lleol i Gefnogi Diogelu Plant – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy,** Hydref 2014

[2] Mae copi o'r adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru www.archwilio.cymru

# Cynigion ar gyfer gwella

## Arddangosyn 1: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn.

| **Cynigion ar gyfer gwella** | |
|---|---|
| C1 | Mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun bod gan ysgolion drefniadau diogelu cadarn ac annog ysgolion i fabwysiadu polisïau diogelu corfforaethol, megis y Polisi Defnyddio Gwirfoddolwyr corfforaethol. |
| C2 | Dylai'r Cyngor wella'i ddull mewn perthynas â hyfforddiant diogelu:<br>• Mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelu gorfodol a gwella'r gyfradd cydymffurfio.<br>• Dylai'r Cyngor ystyried diwygio'r mesur perfformiad 'canran y staff sy'n cael hyfforddiant o fewn 12 mis i ddechrau yn eu swydd' i ffrâm amser fyrrach.<br>• Dylai'r Cyngor ei gwneud yn bosibl i staff allu cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ar Ddeddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gyflymach, yn enwedig yn y gwasanaeth Addysg – Heblaw Ysgolion.<br>• Dylai'r Cyngor wneud yn siŵr bod di hyfforddiant diweddaru arfaethedig ar gyfer aelodau etholedig yn digwydd<br>• Dylai'r Cyngor ei gwneud yn glir pa mor aml y mae angen i hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer staff gael ei ddiweddaru.<br>• Dylai'r Cyngor egluro a yw hyfforddiant diogelu'n orfodol i lywodraethwyr ysgolion. |
| C3 | Dylai'r Cyngor sicrhau ei fod yn gallu cofnodi a monitro gwybodaeth am wirfoddolwyr yn ganolog, gan gynnwys unrhyw gofnodion hyfforddi a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. |
| C4 | Dylai'r Cyngor fynd i'r afael â'r meysydd a nodwyd ganddo fel rhai lle ceir tanberfformiad (gweler Atodiad 2). |

# Adroddiad manwl

## Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'n hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu, ond gallai gryfhau rhai o'i drefniadau ac agweddau ar ei berfformiad

## Mae gan y Cyngor drefniadau eglur ar gyfer goruchwylio i weld a yw'n cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu a diwylliant cryf bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb ond gallai rhai trefniadau fod yn gryfach

6 Mae'r Cyngor wedi datblygu trefniadau llywodraethu corfforaethol cryf ar gyfer diogelu. Mae gan y Cyngor Banel Diogelu Corfforaethol sy'n cynnwys uwch gynrychiolwyr o adrannau ar draws y Cyngor. Mae'r Panel Diogelu Corfforaethol yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ers mis Ionawr 2018. Mae hyn wedi helpu i godi proffil diogelu yn y Cyngor ac i atgyfnerthu'r neges bod diogelu'n gyfrifoldeb i bawb. Yn ogystal â'r Panel Diogelu Corfforaethol, mae gan y Cyngor Fforwm Arweinwyr Diogelu Dynodedig hefyd, sy'n fecanwaith effeithiol ar gyfer helpu i wreiddio diogelu ar draws pob Cyfarwyddiaeth yn y Cyngor.

7 Mae gan y Cyngor swyddogion profiadol a medrus sy'n deall yn llawn beth yw eu rolau o ran diogelu. Mae'r perthnasoedd proffesiynol rhwng uwch swyddogion sy'n gyfrifol am ddiogelu a'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol (Plant, Teuluoedd a Diogelu) yn gadarnhaol ac fe geir trafodaethau rheolaidd am faterion diogelu.

8 Mae diogelu wedi'i gynnwys fel risg yn y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r holl Gofrestrau Risgiau ar Lefel Gwasanaethau. Mae Cynllun Gweithredu'r Panel Diogelu Corfforaethol yn nodi y dylai'r holl wasanaethau fynd ati'n flynyddol i gynnal asesiad ffurfiol o'u risgiau diogelu a chymryd camau priodol i liniaru risgiau yn y dyfodol. Mae adroddiad ar yr asesiad ffurfiol hwnnw'n cael ei gyflwyno i'r Panel Diogelu Corfforaethol.

9 Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yn gynhwysfawr, yn cael ei adolygu'n rheolaidd ac wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd a gwefan y Cyngor. Ceir polisïau eraill sy'n gysylltiedig â diogelu megis y Polisi Recriwtio, y Polisi Defnyddio Gwirfoddolwyr a'r Polisi ar Wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Mae Polisi Chwythu'r Chwiban yn cynnwys adran ar ddiogelu ac mae'n cysylltu â'r Polisi Diogelu Corfforaethol. Mae cyfle i gryfhau'r Polisi Diogelu Corfforaethol trwy groesgyfeirio at bolisïau corfforaethol perthnasol eraill mewn perthynas â diogelu. Mae'r Polisi Defnyddio Gwirfoddolwyr a'r Polisi ar Wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn enwi dogfennau a pholisïau corfforaethol eraill y dylid cyfeirio atynt.

10 Mae cofnodion y Panel Diogelu Corfforaethol o 2017 yn cyfeirio at Bolisi Defnyddio Gwirfoddolwyr ar wahân a ddefnyddir ym maes Addysg. Nid yw'r Cyngor yn meddwl bod y polisi ar wahân hwn mor gadarn â'r un corfforaethol, ac mae'n disgwyl i ysgolion fod wedi mabwysiadu'r Polisi Defnyddio Gwirfoddolwyr corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn gallu gorfodi ysgolion i fabwysiadu ei bolisi ac ar hyn o bryd nid yw'n siŵr a yw wedi cael ei fabwysiadu gan bob ysgol ac mae angen iddo wirio cydymffurfiaeth yn hynny o beth.

11 Mae Polisi Recriwtio a Dethol y Cyngor yn cynnwys darpariaethau recriwtio diogel. Mae'r Cyngor yn defnyddio contractau gyda darpariaethau diogelu priodol ac mae hyfforddiant recriwtio diogelach yn orfodol ar gyfer rheolwyr sy'n recriwtio.

12 Nid yw'r Cyngor yn gallu gorchymyn bod ysgolion yn defnyddio Polisi Recriwtio a Dethol y Cyngor. Mater i bob Corff Llywodraethu yw penderfynu a ydynt yn dymuno mabwysiadu neu addasu'r polisi enghreifftiol a ddarparwyd gan Adran Adnoddau Dynol y Gwasanaethau Addysg ai peidio. Mae'r Cyngor yn ysgrifennu at lywodraethwyr ysgolion i ganfod a oes gan ysgolion bolisi recriwtio diogel sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac sy'n cwmpasu egwyddorion diogelu.

13 Mae'r Cyngor yn y broses o drosglwyddo cofnodion DBS a ddelir ar y system ar wahân a ddefnyddir gan y Gwasanaeth Addysg i'w system iTrent gorfforaethol. Unwaith y bydd y broses drosglwyddo honno wedi'i chwblhau bydd gan y Cyngor un system i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio o ran gwiriadau DBS ar gyfer yr holl staff. Bydd hyn o gymorth i fynd i'r afael ag argymhelliad 3 o'n hadroddiad cenedlaethol yn 2015 a nodir yn Atodiad 1. Nid oes gan y Cyngor ardal ar gyfer unigolion heblaw staff ar iTrent eto ac felly nid yw'n dal gwybodaeth am wiriadau DBS ar gyfer gwirfoddolwyr ar un system ganolog. Mae system ganolog (iTrent) yn cael ei threialu ar hyn o bryd yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn sicrhau y gall y gwasanaeth gofnodi'r data sydd ei angen ar wybodaeth gwiriad DBS ar gyfer gwirfoddolwyr. Pan fydd hyn yn gweithio'n foddhaol yn y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, caiff y system ei chyflwyno i wasanaethau eraill y Cyngor.

14 Rydym yn cydnabod bod gan ysgolion lefel o annibyniaeth o ran mabwysiadu polisïau neu weithdrefnau cynghorau, ond mae'n bwysig bod y Cyngor wedi'i sicrhau bod gan ei ysgolion drefniadau priodol i ddiogelu plant ac mae angen iddo barhau â'i ymdrechion yn y maes hwn.

## Gallai'r Cyngor wella'i drefniadau hyfforddiant diogelu

15 Bu oedi cyn cyflwyno hyfforddiant diogelu e-ddysgu gorfodol ond mae wedi bod ar gael ers mis Awst 2018. O ran y sefyllfa ym mis Mawrth 2019, mae cofnodion y Cyngor yn nodi bod 48% o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant diogelu gorfodol, sy'n cynnwys ffigyrau ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ogystal â'r hyfforddiant e-ddysgu. Mae'r Cyngor wedi darparu nifer o resymau dros y ffigwr hwn. Mae'r rhain yn cynnwys problem dechnegol sy'n golygu na chofnodir bob amser bod hyfforddiant wedi cael ei gwblhau os nad yw swyddog yn clicio i argraffu tystysgrif ar ei ddiwedd. Mae rhai aelodau o staff wedi cael hyfforddiant diogelu ar lefel uwch ac felly nid ydynt wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu mwy sylfaenol (er ei fod yn

dal i fod yn hyfforddiant gorfodol y mae'n rhaid iddynt ei gwblhau). Mae'r ffigyrau hefyd yn seiliedig ar nifer y swyddi nid pobl, felly os oes gan un unigolyn dair swydd a'i fod heb gwblhau'r hyfforddiant yna mae hynny i'w weld ar gyfer tair swydd. Er gwaethaf y rhesymau hyn, mae angen i'r Cyngor ei sicrhau ei hun yn well bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant diogelu gorfodol a chyflymu'r gyfradd cwblhau.

16 Mae gan y Cyngor fesur perfformiad 'canran y staff sy'n cael hyfforddiant o fewn 12 mis i ddechrau yn eu swydd'. Mae hyn yn gyfnod hir ar gyfer hyfforddiant mor bwysig, a dylai'r Cyngor ystyried lleihau'r amser hwn, yn enwedig gan bod yr hyfforddiant e-ddysgu diogelu ar gael bellach.

17 Rhoddir llyfryn diogelu corfforaethol fel rhan o'r rhaglen sefydlu ac mae'n darparu trosolwg ddefnyddiol o ddiogelu, pethau i gadw golwg amdanynt, ac mae'n cyfeirio at y polisi a rhifau cyswllt perthnasol. Fodd bynnag, mae angen i'r ystadegau ar gyfer cwblhau'r rhaglen sefydlu o fewn graddfeydd amser priodol wella (gweler Atodiad 2).

18 Mae hyfforddiant mewn perthynas â Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn orfodol, ond ychydig yn llai na 70% sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant hwnnw dros flwyddyn ar ôl cyflwyno'r hyfforddiant. Llywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol bod hyfforddiant mewn perthynas â'r Ddeddf yn orfodol ac mae angen i'r Cyngor sicrhau y cyflawnir cyfradd cydymffurfio o 100%. Cyflawnwyd cyfradd cwblhau arbennig o wael, sef 31%, yn yr adran 'Addysg – Heblaw Ysgolion'.

19 Mae cofnodion hyfforddiant y Cyngor yn cadarnhau bod yr holl aelodau etholedig wedi cael hyfforddiant diogelu. Mae'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorwyr gael hyfforddiant diogelu unwaith yn ystod pob gweinyddiaeth. Nid yw rhai Cynghorwyr wedi cael hyfforddiant diogelu ers 2014 ac felly mae angen iddynt gael hyfforddiant diweddaru. Mae'r Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol (Plant, Teuluoedd a Diogelu) yn cydnabod hyn ac mae'n bwriadu sicrhau bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu erbyn diwedd y flwyddyn. Gallai'r Cyngor fod yn fwy eglur ynghylch ei ddisgwyliadau o ran pryd y dylai staff gael hyfforddiant diweddaru ar gyfer diogelu hefyd.

20 Mae gwybodaeth am hyfforddiant diogelu'n cael eu gofnodi a'i fonitro trwy iTrent ar gyfer staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae'r Cyngor yn treialu datblygiad ardal gwirfoddolwyr ar iTrent a fyddai wedyn yn gallu cofnodi gwybodaeth am hyfforddiant diogelu ar gyfer gwirfoddolwyr. Mae'r Polisi Defnyddio Gwirfoddolwyr yn nodi mai goruchwylwyr gwirfoddolwyr sy'n gyfrifol am sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael hyfforddiant diogelu sylfaenol priodol.

21 Nid yw gwybodaeth am hyfforddiant mewn perthynas â staff a llywodraethwyr ysgolion yn rhan o'r wybodaeth am hyfforddiant ar iTrent. Nid oes gan ysgolion y cyfleuster i fewnbynnu data yn uniongyrchol ar iTrent. Cyfrifoldeb Penaethiaid neu'r Person Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn ysgolion yw cadw cofnod o'r holl staff sy'n cwblhau hyfforddiant ac ar ba ddyddiad a dylent allu darparu rhestr ar gyfer y Cyngor ar gais. Gall y Cyngor gwblhau cofnodion hyfforddiant os oes angen trwy Hwb (sef y system y mae ysgolion yn ei defnyddio i gael mynediad at hyfforddiant).

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt gydag ysgolion ynglŷn â throsglwyddo cofnodion hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion i iTrent.

22 Mae Polisi Diogelu Corfforaethol y Cyngor yn datgan bod hyfforddiant diogelu i lywodraethwyr ysgolion yn orfodol. Fodd bynnag, yn ystod ein cyfweliadau ni gyda'r Cyngor, cawsom ein hysbysu nad yw hyfforddiant diogelu'n orfodol i lywodraethwyr ysgolion. Mae angen i'r Cyngor egluro'r sefyllfa yn wyneb y croesddywediad hwn. Mae'r Cyngor wedi dweud mai cyfrifoldeb ysgolion yw hyfforddiant ar gyfer llywodraethwyr ysgolion. Mae gan y Gwasanaethau Addysg daenlen sy'n cofnodi llywodraethwyr sydd wedi cael hyfforddiant diogelu manylach. Mae adolygiad rheoli ysgolion y Cyngor (arolwg sy'n gofyn cwestiynau i ysgolion ynghylch materion diogelu) yn cynnwys cwestiynau sy'n gofyn pa mor effeithiol yw ysgolion yn eu tyb hwy am sicrhau bod hyfforddiant diogelu gorfodol yn cael ei gwblhau. Mae'r Cyngor yn ystyried ymatebion ysgolion ac wedi dweud y bydd yn herio unrhyw fylchau. Fodd bynnag, dim ond 36 allan o 62 o ysgolion a ymatebodd i'r arolwg, felly nid oes gan y Cyngor drosolwg lawn yn hyn o beth.

23 Mae gan y Cyngor ddarpariaethau cytundebol sy'n amodi mai cyfrifoldeb y sefydliad sy'n darparu'r staff yw sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant diogelu. Caiff hyn ei fonitro gan y tîm monitro contractau.

## Mae'r Cyngor yn monitro ac yn gwerthuso gwybodaeth briodol am ddiogelu ac mae wedi adnabod rhai meysydd lle ceir tanberfformiad

24 Mae'r Cyngor wedi datblygu cyfres o fesurau perfformiad corfforaethol ar gyfer diogelu y mae'r Panel Diogelu Corfforaethol yn cael adroddiadau arnynt ac yn eu monitro.

25 Mae diogelu'n un o flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor ac fe'i crybwyllir nifer o weithiau yn yr adroddiad blynyddol ar berfformiad ar gyfer 2017-18. Mae gan y Cyngor adroddiad canol blwyddyn ar berfformiad corfforaethol hefyd sy'n cynnwys mesurau perfformiad ar gyfer diogelu yr adroddir arnynt wrth y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau.

26 Mae'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd yn cael adroddiadau diogelu blynyddol gan y Panel Diogelu Corfforaethol a'r Uned Ddiogelu. Nid yw'r adroddiad diogelu blynyddol gan y Panel Diogelu Corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth am fesurau perfformiad. Mynegodd cyfweleion farn gyffredinol bod aelodau o bwyllgorau craffu'n craffu'n effeithiol ar faterion diogelu.

27 Fel a grybwyllir ym mharagraff 8 uchod, mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol a Chofrestrau Risgiau Gwasanaethau'n cofnodi risgiau diogelu. Mae Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu'r Cyngor yn monitro'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

28 Yn unol ag argymhelliad 7 yn ein hadroddiad cenedlaethol, mae Tîm Archwilio Mewnol y Cyngor wedi bod yn cynnal adolygiadau rheolaidd o ddiogelu. Mae adroddiadau'r Tîm Archwilio Mewnol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. Rhoddodd Adroddiad Dilynol y Tîm Archwilio ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Tachwedd 2017 sgôr sicrwydd cyfyngedig i drefniadau'r

Cyngor. Rhoddodd ail adroddiad dilynol ym mis Gorffennaf 2018 sicrwydd boddhaol ac mae trydydd archwiliad dilynol o ddiogelu corfforaethol i fod i ddechrau cyn bo hir. Yn ogystal â gwaith y Tîm Archwilio Mewnol, mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal adolygiadau o berfformiad gwasanaethau, sy'n cynnwys cwestiwn am ddiogelu.

29 Mae'n beth cadarnhaol bod y Cyngor yn dryloyw o ran sut y mae'n adrodd ar ei berfformiad yn erbyn ei fesurau diogelu. Mae Atodiad 2 yn nodi tanberfformiad diweddar. Er y gwelir tuedd raddol tuag i fyny, mae'n dechrau o sylfaen isel ac mae angen monitro parhaus i sicrhau gwelliant parhaus.

30 Mae'r Cyngor yn defnyddio dysgu'n effeithiol i wella'i drefniadau diogelu. Yn arbennig, roedd yr Arweinwyr Diogelu Dynodedig y siaradom ni gyda hwy'n gadarnhaol iawn ynglŷn â'r cyfleoedd Dysgu a Datblygu yr oeddent hwy wedi'u cael, er enghraifft diwrnodau datblygu sy'n rhoi sylw'n benodol i ddiogelu ac sy'n cynnwys siaradwyr ar destunau megis trais domestig.

31 Mae Atodiad 1 isod yn nodi ein hasesiad ni o'r modd y mae'r Cyngor wedi ymateb i'r argymhellion yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol yn 2015, **Adolygiad o Drefniadau Diogelu Corfforaethol yng Nghynghorau Cymru**.

# Atodiad 1

## Mae'r Cyngor wedi mynd i'r afael â'r mwyafrif o'r argymhellion a wnaed yn ein hadroddiad cenedlaethol ar ddiogelu yn 2015

Arddangosyn 2: argymhellion yn deillio o'r adrdoddiad cenedlaethol a'r cynnydd a wnaed

| Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|
| **A1** Gwella arweiniad corfforaethol a chydymffurfio â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiogelu trwy wneud yr isod:<br>• penodi uwch-swyddog arweiniol fydd yn atebol am ddiogelu ac amddiffyn plant a phobl ifanc gyda chyfrifoldebau corfforaethol am gynllunio gwelliannau; | Argymhelliad wedi'i roi ar waith. Er bod amryw swyddogion o'r farn eu bod hwy'n atebol yn bersonol yn y ffordd yma, mae'r polisi diogelu corfforaethol yn nodi'n glir mai'r Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg sydd â'r cyfrifoldeb 'terfynol a diwahân' am ddiogelu. |
| • penodi aelod arweiniol dros ddiogelu; a | Argymhelliad wedi'i roi ar waith. Mae gan y Cyngor Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol (Plant, Teuluoedd a Diogelu). |
| • dosbarthu a chyfoesi yn rheolaidd wybodaeth am y penodiadau hyn i'r holl staff a rhanddeiliaid. | Argymhelliad wedi'i roi ar waith. Mae gwefan y Cyngor yn eglur o ran pwy yw'r aelod arweiniol dros ddiogelu. Mae gwefan y Cyngor yn cynnwys y Polisi Diogelu Corfforaethol, sy'n rhoi gwybodaeth eglur am briod rolau a chyfrifoldebau. Dywedodd y Cyngor wrthym fod yr wybodaeth hon yn cael ei lledaenu trwy negeseuon e-bost, dros y fewnrwyd a chan y Rheolwyr Diogelu Dynodedig. |
| **A2** Sicrhau bod polisi corfforaethol ar ddiogelu sy'n cynnwys holl wasanaethau'r Cyngor er mwyn rhoi cyfeiriad strategol clir a llinellau atebolrwydd clir ar draws y Cyngor. | Argymhelliad wedi'i roi ar waith – Ceir polisi diogelu corfforaethol cynhwysfawr sydd wedi'i gyhoeddi ar fewnrwyd y Cyngor ac ar wefan y Cyngor. |

| Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|---|
| **A3** | Cryfhau recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn ddiogel trwy:<br>• sicrhau bod gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a chydymffurfio a pholisïau recriwtio diogel yn cynnwys pob gwasanaeth sy'n dod i gysylltiad â phlant;<br>• creu system gydymffurfio gorfforaethol integredig i gofnodi a monitro lefelau cydymffurfio ar wiriadau DBS; a<br>• mynnu cael arferion recriwtio diogel ymysg partneriaid yn y trydydd sector ac i wirfoddolwyr sydd yn darparu gwasanaethau a gomisiynir a/neu a ddefnyddir gan y Cyngor gyda sylfaen o gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth. | Bwled cyntaf – Argymhelliad wedi'i roi ar waith. Mae polisi'r Cyngor ar wiriadau DBS yn cwmpasu holl gyflogeion y Cyngor, ar wahân i'r rhai a benodir gan Gorff Llywodraethu Ysgol â gweithdrefn y cytunwyd arni'n lleol. Mae'r polisi ar wiriadau DBS yn berthnasol i weithwyr asiantaeth, contractwyr, gwirfoddolwyr a myfyrwyr ar leoliad hefyd. Mae gan y Cyngor Bolisi Recriwtio a Dethol sy'n cynnwys adran ar recriwtio diogel.<br><br>Ail fwled – Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol. Mae'r Cyngor yn y broses o drosglwyddo cofnodion a ddelir ar y system ar wahân a oedd yn cael ei defnyddio gan y Gwasanaeth Addysg i'w system iTrent gorfforaethol. Unwaith y bydd y broses drosglwyddo hon wedi'i chwblhau bydd yr argymhelliad hwn wedi cael ei roi ar waith mewn perthynas â staff, ond nid ar gyfer gwirfoddolwyr gan nad yw'r Cyngor eto wedi cyflwyno man ar gyfer gwirfoddolwyr mewn iTrent, sy'n cael ei threialu mewn cyfiawnder ieuenctid ar hyn o bryd.<br><br>Trydydd bwled – Argymhelliad wedi'i roi ar waith. Mae'r Polisi ar Wiriadau DBS yn berthnasol i gontractwyr a gwirfoddolwyr ac mae'r Cyngor wedi rhoi enghreifftiau cytundebol i ni sy'n amodi bod rhaid i'r darparwr sicrhau bod y drefn ar gyfer recriwtio staff a gwirfoddolwyr yn gadarn ac yn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. |

| Argymhellion o’r adroddiad cenedlaethol | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|---|
| **A4** | Sicrhau bod y staff, aelodau a phartneriaid perthnasol yn deall eu cyfrifoldebau diogelu trwy:<br>• sicrhau bod hyfforddiant diogelu yn orfodol a bod yr ymdriniaeth yn ymestyn at holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor, a’i fod yn cael ei gynnwys fel elfen safonol ar raglenni cynefino;<br>• creu system ledled y gorfforaeth i adnabod, olrhain a monitro cydymffurfiaeth â’r angen i fod yn bresennol mewn hyfforddiant diogelu yn holl adrannau’r Cyngor, aelodau etholedig, ysgolion, llywodraethwyr a gwirfoddolwyr; a<br>• mynnu bod staff perthnasol mewn sefydliadau sy’n bartneriaid a gomisiynir i weithio dros y Cyngor wrth gyflenwi gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn gorfod ymgymryd â hyfforddiant diogelu. | Bwled cyntaf – Argymhelliad wedi’i roi ar waith. Mae hyfforddiant diogelu sylfaenol yn orfodol i’r holl staff.<br><br>Ail fwled – Argymhelliad wedi’i roi ar waith yn rhannol. Mae gwybodaeth am hyfforddiant diogelu’n cael ei chofnodi a’i monitro trwy iTrent ar gyfer staff ac aelodau etholedig y Cyngor. Mae’r Cyngor yn treialu datblygiad ardal gwirfoddolwyr ar iTrent a fyddai wedyn yn gallu cofnodi gwybodaeth am hyfforddiant diogelu ar gyfer gwirfoddolwyr. Nid yw gwybodaeth am hyfforddiant mewn perthynas â staff a llywodraethwyr ysgolion yn rhan o’r wybodaeth am hyfforddiant ar iTrent. Nid oes gan ysgolion y cyfleuster i fewnbynnu data yn uniongyrchol ar iTrent. Cyfrifoldeb Penaethiaid neu’r Person Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn ysgolion yw cadw cofnod o’r holl staff sy’n cwblhau hyfforddiant ac ar ba ddyddiad a dylent allu darparu rhestr ar gyfer y Cyngor ar gais. Gall y Cyngor gwblhau cofnodion hyfforddiant os oes angen trwy Hwb. Mae’r Cyngor yn ystyried trosglwyddo cofnodion ar gyfer staff ysgolion i iTrent. Fodd bynnag, fel a nodir ym mharagraff 22 uchod, mae angen i’r Cyngor egluro’r anghysondeb yn yr ystyr bod y Polisi Diogelu Corfforaethol yn nodi bod hyfforddiant diogelu’n orfodol er bod y Cyngor wedi dweud wrthym nad yw’n orfodol a bod y Gwasanaethau Addysg yn cadw taenlen sy’n cofnodi Llywodraethwyr sydd wedi mynychu’r hyfforddiant manylach.<br><br>Trydydd bwled – Argymhelliad wedi’i roi ar waith. Mae gan y Cyngor ddarpariaethau cytundebol sy’n amodi mai cyfrifoldeb y sefydliad sy’n darparu’r staff yw sicrhau eu bod yn cael hyfforddiant diogelu. |

| Argymhellion o'r adroddiad cenedlaethol | | Asesiad Swyddfa Archwilio Cymru o gynnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn erbyn yr argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol |
|---|---|---|
| **A6**[3] | Gwella atebolrwydd am ddiogelu corfforaethol trwy adrodd yn rheolaidd ar faterion diogelu a sicrwydd wrth bwyllgor(au) craffu yn erbyn set gytbwys o wybodaeth perfformiad ledled y Cyngor ynglŷn â'r canlynol:<br>• meincnodi a chymharu ag eraill;<br>• casgliadau archwiliadau/adolygiadau arolygu mewnol ac allanol;<br>• data perfformiad seiliedig ar wasanaethau;<br>• data personél allweddol megis hyfforddiant diogelu, a gwiriadau recriwtio DBS; a<br>• pherfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynwyd o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor. | Argymhelliad wedi'i roi ar waith yn rhannol.<br><br>Mae'r Cyngor yn cyflwyno adroddiadau ar wybodaeth am berfformiad diogelu i'w Bwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau. Mae'r rhain yn cynnwys mesurau o ran hyfforddiant diogelu a gwiriadau DBS. Cyflwynir adroddiadau blynyddol ar berfformiad i'r Cyngor llawn ac maent yn cynnwys mesurau perfformiad sy'n ymwneud â diogelu.<br><br>Mae adroddiad blynyddol y Panel Diogelu Corfforaethol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gofal Cymdeithasol ac Iechyd, ond nid yw hwn yn cynnwys gwybodaeth am fesurau perfformiad.<br><br>Cyflwynir Adroddiadau Archwilio Mewnol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.<br><br>Nid ydym wedi gweld tystiolaeth bod data ar berfformiad gwasanaethau mewn perthynas â diogelu'n cael ei gyflwyno i bwyllgorau craffu na bod gwybodaeth meincnodi'n cael ei darparu ar gyfer pwyllgorau craffu. Nid ydym wedi canfod tystiolaeth ychwaith bod gwybodaeth am berfformiad contractwyr a gwasanaethau a gomisiynir o ran cydymffurfio â chyfrifoldebau diogelu'r Cyngor wedi cael ei darparu ar gyfer pwyllgorau craffu. |
| **A7** | Sefydlu rhaglen dreigl o adolygiadau archwilio mewnol i gynnal profion ar systemau a chynnal adolygiadau cydymffurfio ar arferion diogelu'r Cyngor. | Argymhelliad wedi'i roi ar waith.<br><br>Mae'r tîm Archwilio Mewnol yn bwrw golwg ar ddiogelu corfforaethol bob blwyddyn ac mae wedi helpu i godi proffil y mater yn y Cyngor. |
| **A8** | Sicrhau yr ystyrir y risgiau sy'n gysylltiedig â diogelu ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth wrth ddatblygu a chytuno ar gynlluniau rheoli risg ar draws y Cyngor. | Argymhelliad wedi'i roi ar waith.<br><br>Mae diogelu wedi'i gynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol a'r holl Gofrestrau Risgiau ar Lefel Gwasanaethau. |

[3] Roedd argymhelliad 5 wedi'i gyfeirio at Lywodraeth Cymru yn hytrach na'r cynghorau felly nid yw wedi'i gynnwys yn y rhestr uchod.

# Atodiad 2

## Diogelu yng Nghyngor Conwy – meysydd lle ceir perfformiad gwael

Arddangosyn 3: diogelu yng Nghyngor Conwy – meysydd lle ceir perfformiad gwael

| Mesur perfformiad | Dyddiad yr adroddwyd arno ac wrth bwy | Ffigwr yr adroddwyd arno |
|---|---|---|
| Canran y cyflogeion sy'n cwblhau'r Rhaglen Sefydlu Gorfforaethol o fewn y graddfeydd amser priodol (100% yw'r targed) | 12 Ionawr 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol | 19.3% |
| | 10 Medi 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol | 70% |
| | Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2017-18 – 18 Hydref 2018 – Y Cyngor | 70% |
| | Adroddiad Canol Blwyddyn ar Gynnydd gyda'r Cynllun Corfforaethol 2018-19 – 3 Rhagfyr 2018 i'r Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau | 43% |
| Canran y staff sy'n dechrau yn eu swydd gyda dau eirda (100% yw'r targed) | 12 Ionawr 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol | Nid yw'r wybodaeth ar gael |
| | 10 Medi 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol l | 36.6% |
| | Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2017-18 – 18 Hydref 2018 – Y Cyngor | 97.92% |
| | Adroddiad Canol Blwyddyn ar Gynnydd gyda'r Cynllun Corfforaethol 2018-19 – 3 Rhagfyr 2018 i'r Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau | 89.4% |
| Canran y staff sy'n cael Hyfforddiant Diogelu o fewn 12 mis i ddechrau yn eu swydd (100% yw'r targed) | 12 Ionawr 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol | 17.9% (mae'n cynnwys y cafeat 'er yr adroddir ar hyn yn gorfforaethol nid yw'n cynnwys ysgolion gan bod y mwyafrif o staff Addysg wedi gwneud hyn') |

| Mesur perfformiad | Dyddiad yr adroddwyd arno ac wrth bwy | Ffigwr yr adroddwyd arno |
|---|---|---|
| | 10 Medi 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol | 18.5% (gyda'r cafeat nad yw ysgolion wedi'u cynnwys) |
| | Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2017-18 – 18 Hydref 2018 – Y Cyngor | 18.5% (gyda'r cafeat bod y data hwn ar gyfer gwasanaethau heblaw ysgolion yn unig) |
| | Adroddiad Canol Blwyddyn ar Gynnydd gyda'r Cynllun Corfforaethol 2018-19 – 3 Rhagfyr 2018 i'r Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau | 31.3% (gyda'r cafeat nad yw hyfforddiant Diogelu Corfforaethol ar gael i ysgolion eto gan eu bod yn cael mynediad at eu hyfforddiant trwy 'Hwb' ond bod yr holl ysgolion wedi cwblhau'r hyfforddiant Diogelu a gyflwynwyd iddynt dros 12 mis yn ôl) |
| Canran y staff sy'n dechrau yn eu swydd gyda gwiriad DBS lle y bo'n ofynnol (100% yw'r targed) | 12 Ionawr 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol | Ni chyflwynir adroddiad ar y mesur perfformiad hwn |
| | 10 Medi 2018 – Panel Diogelu Corfforaethol | 35.88% |
| | Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2017-18 – 18 Hydref 2018 – Y Cyngor | 100% |
| | Adroddiad Canol Blwyddyn ar Gynnydd gyda'r Cynllun Corfforaethol 2018-19 – 3 Rhagfyr 2018 i'r Pwyllgor Craffu Cyllid ac Adnoddau | 76.60% |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru